**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mehefin 2012**

**ADOLYGIAD O UWCH GYFLOGAU**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad i gynnal adolygiad annibynnol o uwch gyflogau o fewn y gwasanaeth tân ac achub ar gyfer y pum swydd uwch a enwir.

## Y Cefndir

2 Dan gytundeb gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwr Brigadau Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol, argymhellir bod dull dau drywydd yn berthnasol i uwch gyflogau, gyda chodiad cyflog cenedlaethol yn cael ei drafod yn flynyddol i adlewyrchu chwyddiant. Hefyd, mae yna argymhelliad fod pob awdurdod yn cynnal adolygiad yn rheolaidd o uwch gyflogau. Diben yr adolygiad yw sicrhau bod uwch gyflogau (1) yn gyfartal i Awdurdodau Tân ac Achub tebyg (2) yn gystadleuol a (3) yn adlewyrchu cymhlethdod y swydd. Arfer dda mewn cyflogaeth yw cynnal lefelau cyflogau trwy gymharu ac adolygu'n rheolaidd.

3 Yn unol â hynny, penderfynodd ATAGC ym mis Rhagfyr 2006

> *"fod yr Awdurdod yn cynnal adolygiad o gyflogau Prif Swyddogion y Gwasanaeth bob tair blynedd, gyda chanlyniadau'r adolygiad i gael eu gweithredu o Ebrill 1af y flwyddyn honno. Dylid cynnal yr adolygiad nesaf yn 2009";*

4 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth 2012, cymeradwyodd yr Aelodau y Datganiad Polisi Cyflogau sydd erbyn hyn yn ofynnol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011.

5 Mae polisi cyflogau'r Awdurdod yn nodi'r berthynas sydd rhwng y taliadau i'w brif swyddogion ac i weithwyr nad ydynt yn brif swyddogion. At y diben hwn, diffinnir prif swyddogion fel y Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân. Yn y polisi hwnnw, cadarnhawyd bod y taliadau i'r prif swyddogion yn gyson â'r dull dau drywydd ar gyfer pennu lefelau cyflogau Rheolwr Brigâd fel y rhagnodir gan y Cyd-Gyngor ar gyfer Rheolwyr Brigadau Gwasanaethau Tân ac Achub. Yn y bôn, mae hyn fel yr argymhellir ym mharagraff 2.

6 Cynhaliwyd yr adolygiad blaenorol yn 2009, a'i weithredu ar 1af Ebrill 2009. Yn seiliedig ar gytundeb 2006 – sef y dylid cynnal adolygiad bob tair blynedd – mae'r adolygiad nesaf yn hwyr.

7 Argymhellir bod yr asesydd annibynnol allanol a gynhaliodd yr adolygiad o'r blaen yn cael ei gomisiynu eto er mwyn cael cysondeb yn y dull. Mae'r asesydd hefyd wedi gwneud gwaith i Awdurdod Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin. Bydd y Clerc yn goruchwylio'r adolygiad er mwyn sicrhau annibyniaeth o ystyried y gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r uwch swyddogion sydd o fewn cwmpas yr adolygiad.

## Argymhellion

8 Gofynnir i'r Aelodau gomisiynu'r adolygiad nesaf o uwch gyflogau.